Y Gwirfoddolwr yn Sir Ddinbych

Medi 2011

CYNGOR GWASANAETHAU GWIRFODDOL SIR DDINBYCH

RHAGRYBUDD CYFARFOD BLYNYDDOL

Eleni, cynhelir Cyfarfod Blynyddol CGGSDd

yn

Neuadd Bentref Trefnant, Trefnant, Dinbych

Dydd Gwener 25ain Tachwedd

Bydd cinio bwffe ysgafn ar gael am hanner dydd, cyn dechrau'r cyfarfod

Yn ddiweddar mae'r Neuadd Bentref wedi cael ei ailwampio'n gyfan gwbl ag, ynghyd â'r busnes Cyfarfod Blynyddol arferol, byddwn hefyd yn cael gwybod faint o amser, ymdrech a gwaith caled oedd ynghlwm â'r adnewyddiad.

Hoffem eich atgoffa'n garedig mai aelodau CGGSDd yn unig sydd â hawl pleidleisio yn y Cyfarfod Blynyddol. Os nad ydych yn aelodau eisoes, ag yn dymuno sicrhau fod llais eich mudiad yn cael ei glywed yn y dyfodol cysylltwch â Bronwen Isaac 01824 702441 i gael ffurflen ymaelodi.

Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych
Canolfan Naylor Leyland
Stryd y Ffynnon
Rhuthun
LL15 1AF

Ffôn: 01824 702441
Ffacs: 01824 705412

e.bost
office@dvsc.co.uk
Gwefan
www.dvsc.co.uk
Newvol - Cwmni Cyfyngedig Drwy Warant 3132487
Elusen Gofrestredig 1054322

Prif Swyddog Gweithredol
John Watkin

www.dvsc.co.uk

PWY YDI PWY YN CGGSDd?

John Watkin - *Prif Swyddog Gweithredol*

Gareth Mawby *Dirprwy Brif Swyddog Gweithredol*

Maggie Bradley *Swyddog Datblygu, Canolfan Gwirfoddoli - Porth Ymgysylltu*

Suzanne Bradley *Swyddog Cyswllt Trydydd Sector*

Rhian Drake *Swyddog Cyllid*

Carys Edwards *Clerc/Teipydd*

Jackie Evans *Cynorthwy-ydd Gweinyddol*

Gerry Frobisher *Cyd-drefnydd Gwirfoddoli*

Lindsay Haveland *Uwch Hwylusydd Iechyd a Gofal Cymdeithasol*

Bronwen Isaac *Arolygwr Swyddfa*

Gaynor Jones *Trefnydd Y Ganolfan Gwirfoddoli*

Vera Jones *Gofalwraig*

Lynn Mealings *Swyddog Mentrau Cymdeithasol*

Lilwen Roberts *Swyddog Gwybodaeth*

Sian Roberts *Cynorthwy-ydd Datblygu*

Jennifer Rowlands *Rheolwr Prosiect*

Emyr B Williams Uwch*Swyddog Datblygu*

JoAnne Williamson *Cynorthwy-ydd Cyswllt Cefnogaeth*

———————

Fforwm Anabledd Dysgu Sir Ddinbych 01824 707246

Alan Benbow *Cydlynydd*

Jackie Evans *Cynorthwy-ydd Gweinyddol*

———————

Gwasanaeth Eiriolaeth Access2Advocacy 50+

01745 353096

Elfed Williams *Uwch Swyddog Eiriolaeth*

Sarah Caunt *Cynorthwy-ydd Gweinyddol* **Luke Pickering** *Cydlynydd Gwirfoddoli*

Dawn Sandford *Gweithiwr Cefnogaeth Allgymorth*

———————

Prosiect Datblygu Cymunedol

Dinbych Uchaf 01745 815897

Angela Watt *Gweithiwr Datblygu Cymunedol*

Sharon Simon *Cynorthwy-ydd Gweinyddol*

———————

NEWCIS - (Gwasanaeth Gwybodaeth Gofalwyr Gogledd Ddwyrain Cymru)

Sir Ddinbych

Y Rhyl 01745 331181

Ann Shield *Cydlynydd Gwasanaethau Gofalwyr*, **Gundega Bushevitsa** *Swyddog Ariannol/ Gweinyddol,* **Iona Crompton** a **Kealie Jones** Mentor Cyfleoedd a Chyflogaeth Gofalwyr, **Kati Denton** *Gweinyddwr,* **Carolyn Hilderbrandt,** *Gweithiwr Maes,* **Diana Owen** a ***Glain Jones*** *Swyddogion Asesu Anghenion Gofalwyr,* **Farrell Coleman** *Cynorthwy-ydd Gweinyddol*

Sir y Fflint

Yr Wyddgrug 01352 744055

Claire Sullivan *Cydlynydd* **Garry Davies** *Hwylusydd Annibyniaeth a Lles Gofalwyr* **Helen Owen** Hwylusydd Cymunedol **Katy Harris** *Hwylusydd Gofal Cychwynnol* **Barry Martin** Gweinyddwr **Viv Brundell** ag **Elaine Jones** Gweinyddwyr Grantiau **Simone Percy** *Hwylusydd Cyfleon a Chyfranogaeth Gofalwyr i Gyflogaeth* **Jean Rodden H***wylusydd Gofalwyr i Ofal Iechyd Parhaus*

Gweithiwr gofal cymdeithasol proffesiynol i Gadeirio Cymdeithas Dai

Mr Dafydd Ifans yw Cadeirydd newydd Cymdeithas Tai Clwyd Alyn, mae'n weithiwr cymdeithasol â chymwysterau proffesiynol sydd â phrofiad helaeth o weithio ar lefel uwch reolwr.
Ymunodd Mr Ifans, sy'n byw yn Llansannan yng Nghonwy, â Byrddau Cymdeithas Tai Clwyd Alyn a Chymdeithas Tai Tŷ Glas yn Chwefror 2009. Mae hefyd yn eistedd ar Fyrddau Rheoli Pennaf Cyf a Tir Tai Cyf, sydd oll yn rhan o Grŵp Tai Pennaf.
Cychwynnodd Mr Ifans, sy'n rhugl ei Gymraeg, ar ei yrfa mewn Gwaith Cymdeithasol gyda Gwasanaeth Prawf Gogledd Cymru fel Swyddog Prawf. Ers hynny mae wedi bod mewn nifer o swyddi rheoli mewn Awdurdodau Lleol, mewn corff anadrannol yng Nghymru a Lloegr ac yn Llywodraeth Cymru lle bu'n Brif Weithredwr ar y Gwasanaeth Cynghori a Chynorthwyo Llys i Blant a Theuluoedd Cymru (CAFCASS CYMRU).
Dywedodd Prif Weithredwr y Grŵp Mr Graham Worthington, "Rydym yn falch iawn bod Mr Ifans wedi cytuno i fod yn Gadeirydd newydd ar Clwyd Alyn, mae ei ymroddiad a'i ymrwymiad yn parhau i fod yn ased mawr i'r sefydliad."
Mae Cymdeithas Tai Clwyd Alyn sydd wedi datblygu mwy na 5,000 o unedau tai ar draws Gogledd a Chanolbarth Cymru, yn rheoli tai anghenion cyffredinol ar draws chwe sir yn ogystal â darparu llety gyda chefnogaeth arbenigol i bobl hŷn a bregus ac i'r rhai sydd wedi profi problemau oherwydd digartrefedd.
Mae'r gymdeithas hefyd yn rheoli tri chartref gofal preswyl ac mae ar fin agor y pedwerydd gartref gofal gyda chyfleusterau nyrsio arbenigol ym Mae Colwyn ym mis Medi.
Dywedodd Mr Ifans: "Rwyf yn edrych ymlaen yn fawr at gyfarfod llawer o'n tenantiaid, preswylwyr, prydleswyr a chleientiaid, yn ogystal â'r rhai sy'n gweithio i'n partneriaid niferus.
"Mae'r ethos o 'agor drysau a gwella bywydau' yn rhan fawr o'r diwylliant yn Clwyd Alyn, boed hynny yn ddarparu tai fforddiadwy i bobl leol neu roi cefnogaeth i'r bobl fwyaf bregus neu'r rhai sy'n cael eu gwthio i'r cyrion yn ein cymunedau," ychwanegodd Mr Ifans.

Rheoli risg ymysg elusennau bach ac ymddiriedolwyr newydd

Mae'r Comisiwn Elusennau, rheoleiddiwr elusennau Cymru a Lloegr, wedi llunio adran ar y we sy'n sôn am risg, yn arbennig ar gyfer elusennau bach. Mae'r adran wedi'i hanelu at elusennau bach neu newydd ac at ymddiriedolwyr newydd, ac mae'r tair tudalen yn ymdrin â 10 cwestiwn defnyddiol ynghylch osgoi problemau, prosesau rheoli risg symlach ar gyfer elusennau bach, ac yn eich cyfeirio at ragor o wybodaeth/help ar bynciau sy'n amrywio o gyfraith elusennau i iechyd a diogelwch. Ceir eitem newyddion yn http://www.charitycommission.gov.uk/RSS/News/pr_risk_info.aspx neu ewch yn syth i http://preview.tinyurl.com/6az7utt (Ffynhonnell: Cylchlythyr VolResource 483)

RHAGLEN DYSGU CYMUNEDOL RHANBARTHOL

Cyrsiau i gyd yn **£20 y pen** os na nodir yn wahanol (Heb nawdd o'r Cynulliad byddai'r cyrsiau costio £100 yr un)

Mae'r rhaglen hyfforddiant ar y cyd lwyddiannus yma'n parhau a gweler fanylion llawn ar wefan CGGSDd www.dvsc.co.uk. I sicrhau lle ar gwrs cysylltwch â Bronwen Isaac ar 01824 702441 Bronwen@dvsc.co.uk

Cymryd Cofnodion [Hanner diwrnod] - Dydd Llun, 17 Hydref, 2011 - 10.15 am i 1.00 pm - CGGSDd Canolfan Naylor Leyland, Rhuthun

Erbyn diwedd y sesiwn byddwch

- Â dealltwriaeth glir ynglyn â rôl y sawl sy'n cymryd cofnodion
- Â rhestr wirio o'r eitemau sydd i'w cynnwys mewn cofnodion
- Wedi derbyn cyfarwyddyd ar sut i gymryd cofnodion cywir, byr a chlir
- Yn deall pwysigrwydd y ddynameg rhwng y sawl sy'n cymryd cofnodion a'r cadeirydd

Hyfforddwr - Emyr B Williams

Cyflwyniad i Dendro - Dydd Llun , 14 Tachwedd, 2011 - 10.00 am - 3.30 pm - Canolfan Naylor Leyland, Stryd y Ffynnon, Rhuthun

Erbyn diwedd y sesiwn byddwch

- Wedi gwella eich dealltwriaeth ynglyn â'r gwahaniaeth rhwng grantiau a chontractau
- Cynyddu eich gwybodaeth am dendro
- Wedi derbyn arweiniad am y broses tendro
- Wedi edrych ar y potensial o weithio ar y cyd wrth ystyried darpariaeth gwasanaethau

Hyfforddwyr - Emyr Williams/ Maggie Bradley

Nodwch os gwelwch yn dda fod y cwrs ar gyfer rhai sy'n gwybod dim byd am y broses tendro

Canfod y Gymysgfa Ariannu Addas - Dydd Iau, 17 Tachwedd, 2011 - 10.00 am - 3.30 pm Canolfan Gymunedol Ffordd Wellington, Y Rhyl

Erbyn diwedd y sesiwn byddwch

- Yn deall cysyniad ariannu cynaliadwy
- Yn deall pwysigrwydd trefn lywodraethol gref a chynllunio
- Yn deall yr angen am strategaeth codi arian
- Yn gwybod am ddewis arall o ffynonellau incwm a chyllid (yn cynnwys y broses tendro ag opsiynau masnachu)

Hyfforddwyr - Jan Smith a Sonia Kendall, Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Conwy

Codi Arian Cymunedol [Hanner diwrnod] - Dydd Iau, 24 Tachwedd, 2011 9.30am i 1.00 pm CGGSDd Canolfan Naylor Leyland, Rhuthun

Erbyn diwedd y sesiwn byddwch yn gwybod sut i

- Greu cynllun codi arian i'ch cymuned leol
- Ddatblygu achosion addas i'w cefnogi a rhwydwaith o grwpiau lleol
- Recriwtio, rheoli a chefnogi gwirfoddolwyr codi arian
- Roi gweithgareddau codi arian cymunedol ar waith
- Sicrhau glynu at ddeddfwriaeth ac ymarfer gorau a gwybod lle i fynd am ragor o wybodaeth

Hyfforddwr - Jennifer Rowlands

Addas ar Gyfer Nawdd - Dydd Llun, 5 Rhagfyr, 2011 - 10.15 am - 3.15 pm CGGSDd Canolfan Naylor Leyland, Rhuthun

Erbyn diwedd y sesiwn byddwch

- Yn gallu gwneud eich gwaith cartref a deall sut mae ymchwil trylwyr, canlyniadau realistig a chyllido manwl gywir yn gwella'r siawns o wneud cais llwyddiannus
- Wedi dysgu sut i ysgrifennu ceisiadau ariannu cryno a grymus
- Yn gallu meithrin perthynas ag arianwyr a chyfarfod eu gofynion

Hyfforddwr - Emyr B Williams

Codi Arian Cymunedol [Hanner diwrnod] - Dydd Iau, 24 Tachwedd, 2011 9.30am i 1.00 pm CGGSDd Canolfan Naylor Leyland, Rhuthun

Erbyn diwedd y sesiwn byddwch yn gwybod sut i

- Greu cynllun codi arian i'ch cymuned leol
- Ddatblygu achosion addas i'w cefnogi a rhwydwaith o grwpiau lleol
- Recriwtio, rheoli a chefnogi gwirfoddolwyr codi arian
- Roi gweithgareddau codi arian cymunedol ar waith
- Sicrhau glynu at ddeddfwriaeth ac ymarfer gorau a gwybod lle i fynd am ragor o wybodaeth

Hyfforddwr - Jennifer Rowlands

Recriwtio, Dethol a Sefydlu Gwirfoddolwyr- Dydd Llun , 23 Ionawr, 2012 - 10.00am i 3.00 pm CGGSD Canolfan Naylor Leyland, Rhuthun

Erbyn diwedd y sesiwn byddwch

- Yn gyfarwydd ag amrediad o ddulliau i ddenu amrywiaeth o wirfoddolwyr
- Wedi uniaethu ffyrdd i wneud gwirfoddoli'n fwy hygyrch
- Yn cydnabod fod 'dethol' yn broses ddwy ffordd ag yn gyfarwydd ag amrediad o offer dethol
- Yn gallu paratoi cwestiynau a chynnal cyfweliadau dethol
- Yn deall defnydd dulliau archwiliad, yn cynnwys gwiriad CRB a chydnabod eu cyfyngiadau
- Adnabod potensial defnydd a cham ddefnydd gwybodaeth bersonol gwirfoddolwyr
- Wedi gweld beth sydd angen ei wneud i wella eich ymarfer chi a'ch mudiad

Hyfforddwr - Gaynor Jones

Masnachu [Hanner Diwrnod] - Dydd Iau, 26 Ionawr, 2012 - 9.30 am - 1.00 pm - Canolfan Gymunedol Ffordd Wellington, Y Rhyl

Erbyn diwedd y sesiwn byddwch

- Yn gallu asesu'r potensial o fasnachu nwyddau neu wasanaethau
- Yn deall y broses o ddatblygu syniadau masnachu
- Wedi datblygu mantais gystadleuol a gwybod lle i fynd am ragor o wybodaeth, cymorth a chyngor

Hyfforddwr - Jennifer Rowlands

Rôl Swyddogion Grwpiau Gwirfoddol a Chymunedol - Dydd Mercher, 15 Chwefror, 2012- 10.00 am - 3.00 pm - Canolfan Gymunedol Ffordd Wellington, Y Rhyl

Erbyn diwedd y sesiwn byddwch

- Wedi canfod swyddogaeth unigol swyddogion mygedol ag
- Yn deall pwysigrwydd ag effaith y swyddogaethau ar y mudiadau
- Yn deall pwrpas a chyfrifoldebau swyddogion mygedol
- Wedi ystyried pa wybodaeth a sgiliau sy'n angenrheidiol i ymgymryd â'r swyddogaethau penodol

Hyfforddwr - Emyr B Williams

GWASANAETHAU YMARFEROL SYDD BOB AMSER AR GAEL Yn CGGSDd

ADNODDAU

- **Teipio - £3.50 am ddalen A4**
- **Llungopïo - 5c am ddalen A4**
- **Gwasanaeth Talu Cyflogau - Cyfraddau cystadleuol iawn - cysylltwch â Gareth Mawby 01824 702441 am fanylion costau**
- **Cyfieithu - o £40.00 am 1,000 o eiriau**
- **Defnyddio'r Rhyngrwyd - am ddim**
- **Hurio offer - Byrddau Arddangos, siartiau fflip ayb,**
- **Hurio Ystafelloedd Cynhadledd / Pwyllgor - manylion ar dudalen 15**
- **Cylchlythyr pob dau fis**
- **Dosbarthu taflenni gyda'n cylchlythyr - cysylltwch â Lilwen Roberts 01824 702441 am fanylion costau**

ARIANNU

- **Cyngor a gwybodaeth**
- **Gwasanaeth Funderfinder**

- **Ffynonellau ariannol addas**
- **Cyngor ar ffynonellau a gwneud ceisiadau ariannol**

HYFFORDDIANT

Cyrsiau Hyfforddiant / Seminarau Gwybodaeth, Cyfeirio at gyrsiau hyfforddiant ar gost resymol:-

- **Cyfrifon (SORPS)**
- **Rheoli Gwirfoddolwyr**
- **Ariannu**
- **Sgiliau Pwyllgor**
- **Swyddogaeth Ymdiriedolwyr**

AYB AYB AYB

CANOLFAN GWIRFODDOLI

- **Cydweddu Gwirfoddolwyr a chyfleoedd gwirfoddoli o fewn mudiadau yn y Sir**
- **Gwirfoddolwyr y Mileniwm 16 - 25 mlwydd oed**
- **Gwirfoddolwyr y Mileniwm yn Sir Ddinbych - o dan 16 mlwydd oed**

Cynllun Grantiau Bach Cyfalaf (CFAP)

Ym mis Gorffennaf, unwaith yn rhagor, cynhaliodd CGGSDd gyfarfod panel i ddyrannu grantiau Rhaglen Cyfleusterau a Gweithgareddau Cymunedol Llywodraeth Cymru. Dyrennir grantiau o hyd at £3,000 i grwpiau / mudiadau ar gyfer gwariant cyfalaf i hwyluso gweithgareddau sy'n hyrwyddo adfywiad cymunedau.

Grantiau a Ddyrannwyd
Rhyl Little Theatre Ltd -I brynu byrddau, cadeiriau a throli £1,000
St John Rhyl Division -I brynu radios dwy ffordd i'w defnyddio mewn gweithgareddau £914.00
Cylch Chwarae Arcville, Y Rhyl - I brynu sied, teganau ayb £1,000
Rhyl and District Musical Theatre -Darparu toiledau hygyrch £3,000
Band Arian Y Rhyl -CCTV a drws rholer i'w hadeilad £2,995
Capel Mawr, Dinbych -Ailwampio'r gegin £3,000
Grŵp Gweithredu Cymunedol Prestatyn a Meliden - Boeler combi newydd £995
Cymunedau G2G Communities CIC -5 cyfrifiadur, desgiau a chadeiriau £3,000
Clwb Pysgota Brickfield, Y Rhyl -Ailwampio 2 pontŵn pysgota hygyrch £2,800
Sefydliad y Merched, Dinbych - Gosod cegin arddangos yn Nhŷ Sefydliad y Merched £3,000
Capel MC Derwen -Ffenestri newydd i'r festri gymunedol £2,000
Gŵyl Gelfyddyd Ieuenctid Prestatyn -Cyfraniad tuag at brynu offer cynhyrchu ffilmiau £1,000
Capel Annibynwyr Waengoleugoed -adeiladu ffos gerrig carthffrwd newydd o'r capel cymunedol£3,000 [disgwyl am un pris arall]

Cymeradwywyd cyfanswm o **£27,704** mewn grantiau, o'r arian a ddyrannwyd am eleni. Cynhelir y cyfarfod panel nesaf, ail rownd y cynllun, yn ystod mis Hydref 2011. Ceir manylion, meini prawf, a ffurflen gais ar wefan CGGSDd www.dvsc.co.uk o dan y pennawd ariannu.

Rhaid i ffurflenni cais fod i mewn erbyn dydd Gwener 30ain Medi 2011

Dirprwy Weinidog yn cyhoeddi cymorth grant i helpu plant a theuluoedd

Bydd mudiadau gwirfoddol sy'n darparu gwasanaethau ar gyfer plant a theuluoedd ledled Cymru yn gallu gwneud cais am arian o dan gynllun grant diwygiedig, yn dilyn cyhoeddiad gan Gwenda Thomas, y Dirprwy Weinidog Plant a Gwasanaethau Cymdeithasol.

Bydd y cynllun Grant Mudiadau Plant a Theuluoedd cyfun yn darparu hyd at £4 miliwn o arian i fudiadau yn y sector gwirfoddol sy'n gweithio ar draws Cymru. Mae'r arian yn cael ei ddarparu o dan gylch grant dwy flynedd newydd o 2012 i 2014, sydd ar agor i geisiadau.
Dywedodd Gwenda Thomas:
"Mae angen i'r trydydd sector ymateb i'r her sy'n ein hwynebu ar adeg pan mae cyllidebau pawb ohonom yn cael eu cwtogi. Trwy wneud newidiadau i ofynion ariannu'r Grant Mudiadau Plant a Theuluoedd, y nod yw sicrhau bod mudiadau gwirfoddol yn helpu i gyflawni blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol a gwella bywydau pob plentyn yng Nghymru.
"Rydyn ni'n awyddus i annog ffyrdd arloesol a chydweithredol o weithio sy'n sicrhau bod y defnydd gorau yn cael ei wneud o adnoddau. Rydyn ni o'r farn y bydd y newidiadau rydyn ni wedi eu gwneud i'r cynllun hwn yn helpu mudiadau yn y sector gwirfoddol i wneud hynny."

Gall mudiadau a hoffai ystyried gwneud cais am arian gael rhagor o wybodaeth yn trwy ddilyn y dolen cyswyllt:-

http://wales.gov.uk/newsroom/childrenandyoungpeople/2011/110901cfog/?version=1&lang=cym

Os hoffech gael pecyn cais gyrrwch e.bost i CFOG2012@wales.gsi.gov.uk i ofyn am un
Rhaid derbyn ceisiadau cyn 31ain Hydref 2011.

Lloyds TSB | Foundation for England and Wales

25 years dedicated to working with charities helping disadvantaged people across England and Wales

Sefydliad Lloyds TSB i Gymru a Lloegr - 'Rydym yn ariannu costau craidd

Eleni, mae Sefydliad Lloyds TSB i Gymru a Lloegr yn dathlu pen-blwydd yn 25 oed ac mae ganddynt £25miliwn i roi i elusennau sy'n helpu pobl dan anfantais i chwarae rhan gyflawn yn y gymuned.

Yng Nghymru, mae'r Sefydliad eisoes wedi ariannu amrediad eang o achosion elusennol, yn cynnwys gwasanaethau cyngor ar ddyled, cefnogaeth i bobl fyddar neu ag amhariad clywedol, cyngor ar bopeth a gwasanaethau cefnogi dibyniaeth cyffuriau. Hyd yma eleni mae £676,400 wedi'i ddyfarnu yng Nghymru ond mae rhagor o arian ar gael. Yn wahanol i lawer iawn o roddwyr grantiau eraill mae 70% o grantiau'r TSB yn mynd tuag at gostau craidd megis cyflogau, costau cyffredinol, rhent a chostau prosiect.

Os yw'ch elusen wedi cofrestru gyda'r comisiwn elusennau, yn helpu pobl o dan anfantais, ag yn cadw cronfa wrth gefn o flwyddyn neu lai, yna fe hoffai'r Sefydliad glywed gennych. Ewch i'w gwefan www.lloydstsbfoundations.org.uk i edrych ar eu meini prawf a chwblhau'r holiadur cymhwyster. Ni fydd yn cymryd mwy na deng munud a gellir dweud wrthych yn syth os yw eich elusen yn gymwys i wneud cais am grant.

CYNLLUN ARIANNU NEWYDD AR GYFER GRWPIAU CYMUNEDOL

Mae gan Cadwyn Clwyd ddau gynllun newydd i ariannu hyd at 70% o gost prosiectau cymunedol. Ardaloedd cefn gwlad Sir Ddinbych yw'r unig ardaloedd sy'n gymwys i dderbyn arian Cadwyn Clwyd. **(Dydi hyn ddim yn cynnwys prosiectau yn ardaloedd Prestatyn, Dyserth na'r Rhyl)**

[1] Drwy'r **Cynllun Cyfleusterau Cymunedol** bydd modd i grwpiau cymunedol dderbyn cyngor a chefnogaeth ariannol i ymgymryd â phrosiectau fydd yn gwella adeiladau a chyfleusterau cymunedol, mannau cyhoeddus neu brosiectau fydd yn cryfhau hunaniaeth y gymuned. **Rhaid i'r prosiect gynnig rhywbeth newydd ac arloesol i'r ardal; ni fydd arian ar gael i wella gwasanaeth sydd eisoes yn bod.**

[2] Drwy'r cynllun **Grantiau Digwyddiadau Gwledig** mae modd i grwpiau cymunedol dderbyn cyngor a chefnogaeth ariannol i drefnu digwyddiadau rheolaidd (digwyddiadau newydd neu rai sy'n bodoli eisoes, e.e. digwyddiadau blynyddol).
Bydd gweinyddwyr y cynllun yn rhoi ystyriaeth arbennig i ddigwyddiadau cymunedol sydd wedi eu trefnu gan wirfoddolwyr neu grwpiau lleol.

Am ragor o fanylion a ffurflenni cais e-bostiwch: helen.roberts@cadwynclwyd.co.uk
Dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ceisiadau: Tachwedd y 30ain 2011

CYFARFOD RHWYDWAITH DATBLYGU CYMUNEDOL

Cynhelir Cyfarfod nesaf y Rhwydwaith Datblygu Cymunedol
Ddydd Gwener 30 Medi, 2011 am 9.45am yng Nghanolfan Gymunedol Ffordd Wellington, Y Rhyl

Gan fod y cyfarfod ar yr un diwrnod a **Bore Coffi Mwya'r Byd Ymchwil Canser Macmillan** penderfynwyd dechrau'r cyfarfod drwy werthu te/coffi a chacennau gyda'r elw mynd i Ymchwil Canser Macmillan.

Unwaith eto, bydd Nia o Ddatblygu Cymunedol Cymru yn ymuno â ni ag yn trafod amryw o eitemau yn cynnwys Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol Datblygu Cymunedol ag Ymgynghoriad Cymunedau'n Gyntaf.

Darperir cinio, fydd yn rhoi digon o amser i rwydweithio.

Os hoffech fynychu cysylltwch ag Emyr Williams 01824 702441 / emyr@dvsc.co.uk erbyn dydd Gwener 23 Medi, 2011.

Cynllun Gweithgaredd Cerddorol yn YNYS MÔN, SIR DDINBYCH, GWYNEDD a CHONWY i rai 16-25 oed sydd ddim mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant (NEETS)

Ar gyfer pwy mae'r cynllun?

Mae'r prosiect wedi ei anelu at rai 16-25 oed sydd Ddim mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant.

Bydd y rhai sy'n cymryd rhan yn cael eu cefnogi gan Diwtoriaid Cerdd Gymunedol profiadol, fydd yn eu harwain trwy weithgareddau cerddorol, yn unigol ac fel rhan o grŵp. Bydd y prosiect yn cael ei arwain gan y cleintiaid gyda gweithgareddau wedi eu teilwra ar gyfer pob unigolyn.

Meini Prawf Cymhwyster:

Rhai rhwng 16-25 oed sydd Ddim mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant sy'n byw yn Siroedd Môn, Dinbych, Gwynedd a Chonwy.

Bydd costau teithio i'r gweithdai yn cael eu had-dalu i'r rhai sy'n cymryd rhan

Am ragor o fanylion cysylltwch â

Sarah Breeze, Swyddog Prosiect Gogledd Cymru, Uned 20, Galeri, Doc Fictoria, Caernarfon, Gwynedd LL55 1SQ

sarah.breeze@communitymusicwales.org.uk

Ffôn: 01286 685248

CYFLE I WARCHOD HAWLIAU CLEIFION YNG NGOGLEDD CYMRU

Mae gan y corff sy'n cynrychioli hawliau cleifion yng ngogledd Cymru nifer o leoedd gwag ac mae'n edrych am aelodau ychwanegol.

Mae Cyngor Iechyd Cymuned Betsi Cadwaladr (CIC) yn edrych am fwy o aelodau i gryfhau llais pobl leol ac i ddylanwadu ar ofal cleifion yng ngogledd Cymru.
Corff gwarchod annibynnol y cyhoedd yn y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yw CIC yng ngogledd Cymru. Mae aelodau CIC yn cynrychioli buddiannau'r cyhoedd ac yn chwarae rhan bwysig i ddylanwadu ar y ffordd mae'r gwasanaethau iechyd yn cael eu cynllunio, eu cyflwyno a'u gwella.
Pobl leol yw aelodau CIC sy'n gweithredu fel llygaid a chlustiau cleifion a'r cyhoedd ac yn gwrando ar eu pryderon gan weithio gyda'r gwasanaeth iechyd i wella ansawdd gofal cleifion.
Mae angen 15 o aelodau newydd ar draws chwe sir gogledd Cymru i helpu CIC barhau i gyflwyno ei wasanaeth hanfodol yn y gymuned.

Edrychwn am bobl o bob maes ac oedran – y gofyniad pwysicaf yw diddordeb go iawn i wella gwasanaethau iechyd i'ch cymuned. Byddai rhai sgiliau allweddol yn ddefnyddiol gan gynnwys: dealltwriaeth o faterion iechyd lleol a gallu i weithio mewn tîm gydag amrywiaeth eang o bobl.

'Rydym yn croesawu ac yn annog ceisiadau o grwpiau sydd heb eu cynrychioli yn cynnwys merched, pobl o leiafrifoedd ethnig a'r anabl.

Os oes gennych ddiddordeb go iawn yn y gwasanaethau iechyd ac yr hoffech wneud gwahaniaeth cadarnhaol yna gallwch helpu drwy ymuno â thîm CIC yng ngogledd Cymru.

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â ni ar:

(01248 679 284 *neu* 01978 835 6178 *neu*
* admin@bcchc.org.uk neu ewch i'n gwefan www.bcchc.org.uk

Nodiadau:
Fe wneir Penodiadau Cyhoeddus GIG yn unol â Chod Ymarfer Swyddfa'r Comisynydd Penodiadau Cyhoeddus.

Dysgu yn y Gwaith - datblygu sgiliau a hyfforddiant yn y gweithle

Mae'r Tîm Dysgu yn y Gwaith yng Ngholeg Harlech WEA (Gogledd) yn cynnig cyfleoedd dysgu hyblyg o safon uchel ledled y Gogledd a'r Canolbarth. Maent yn cynnig cyrsiau undydd hyd gymwysterau uwch lefel 4. Mae'r holl becynnau a gynigir i fudiadau'n cael eu cynllunio'n bwrpasol ar gyfer anghenion busnesau ac aelodau staff. Mae'r hyfforddiant yn cael ei gyflwyno yn y gweithle'n bennaf gan diwtoriaid profiadol. Gellir astudio llawer o'r cyrsiau ar-lein gyda gwasanaeth tiwtor; neu mewn ystafell ddosbarth. Y cymwysterau a gynigir yw: arweinyddiaeth; rheoli cyllid ac adnoddau; rheoli cyffredinol; marchnata a gwerthu; gweinyddu swyddfeydd; gweithio'n ddiogel; meddalwedd TG a swyddfa; gwasanaeth i gwsmeriaid a rheoli cysylltiadau. Mae manylion pellach ar gael drwy e-bostio workplace@fc.harlech.ac.uk neu cysylltwch â'r Tîm Dysgu yn y Gwaith ar 01248 353 254.

Digwyddiadau Polisi Rhanbarthol Hydref 2011

Newid mewn Comisiynu

9:30 Dydd Mawrth 4 Hydref
Neuadd Morfa, Y Rhyl

I gael ffurflenni archebu a gwybodaeth bellach ar y gweithdai ewch i www.tinyurl.com/wcva-policy-policyevents neu cysylltwch â Lein Gymorth WCVA ar (0800 2888 329 neu e-bostiwch policy@wcva.org.uk

Rhaid dychwelyd y ffurflen bwcio gyda £12.00 y pen erbyn **Dydd Gwener 23 Medi 2011**. Rhaid derbyn eich tâl cyn bydd eich lle'n cael ei sicrhau

Mae Swyddfa Gofal a Thrwsio Gogledd Cymru Wedi Symud!

O'r 1af Medi 2011 eu cyfeiriad newydd fydd

Uned 6b, Llys Onnen, Parc Menai, Bangor, Gwynedd
LL57 4DF Ffôn: *01248 671880*

Galwch i mewn i gefnogi ein "Bore Coffi MacMillan"

Canolfan Naylor Leyland, Stryd y Ffynnon, Rhuthun fore Gwener 30ain Medi o 10.30 am tan tua hanner dydd

Croeso i Bawb

WE ARE MACMILLAN. CANCER SUPPORT

Fe'ch gwahoddir i Gyfarfod Blynyddol Menter Iaith Sir Ddinbych **Nos Fercher 5ed o Hydref 2011 yn Ysgol Dewi Sant, Y Rhyl**. Bydd ein siaradwraig wadd, Sally Pettit o Ty'n Llanfair, Rhuthun, yn sôn am Fanteision Cymdeithasol ac Economaidd y Gymraeg. Bydd y cyfarfod yn dechrau am 7.30yh ond bydd bwffe ar gael cyn y cyfarfod o 6.45 ymlaen. Os hoffech ymuno gwelir atodiad neu cysylltwch a Iorwen Jones ar 01745 812822 neu **e-bostio iorwen@menteriaithdinbych.co.uk cyn 21ain o Fedi 2011 os gwelwch yn dda.**

Argraffydd Laser HP 1200 - dipyn o oed - ond yn dal i weithio, ar gael am ddim o Ganolfan Naylor Leyland. Cysylltwch â Bronwen Isaac, 01824 702441 neu Bronwen@dvsc.co.uk os oes gennych ddiddordeb

FFORWM ANABLEDDAU DYSGU SIR DDINBYCH

Dyddiadau i'ch Dyddiadur
Disgo misol y Fforwm a gynhelir ar nos Wener olaf y mis yn Neuadd y Seiri Rhyddion, Meliden 7-10.30pm
NODWCH - Gan fod nifer o'n haelodau i ffwrdd ym mis Hydref gohirwyd Disgo mis Hydref tan nos Wener 4ydd Tachwedd. Disgos yn ôl i'r arfer wedyn.

CINIO GOFALWYR

Yn dilyn llwyddiant tri cyfarfod dros ginio cyn gwyliau'r haf mae cynlluniau ar y gweill i gynnal cinio arall ym Meliden ym mis Hydref i Ofalwyr/ Rhieni. Nid yw'r dyddiad na'r lleoliad wedi'i gadarnhau eto ond os oes gennych ddiddordeb cysylltwch â Jackie

PARTI NADOLIG Y FFORWM

Eleni, cynhelir Parti Nadolig y Fforwm nos Wener 9fed Rhagfyr am 7 o'r gloch yn Neuadd y Seiri Rhyddion, Meliden. Os hoffech fynychu cysylltwch â Jackie (gweler isod) fydd yn rhoi eich enw i Ray Ashley fydd yn dosbarthu'r tocynnau.

Gwyliwch allan am rifyn nesaf y Denfold News - allan mis Hydref / Tachwedd. Cysylltwch â Jackie os nad ydych eisoes ar y rhestr postio

Am fanylion pellach ynglyn â gwaith a gweithgareddau'r Fforwm cysylltwch ag unai Alan neu Jackie ar 01824 709315

Ymgyrchu - diweddariad gan John Watkin, Prif Swyddog Gweithredol CGGSDd

1. Pwyllgorau Archwiliad Cyngor Sir Ddinbych - Hyd yma ni sicrhawyd unrhyw seddau ar y pwyllgorau archwiliad lleol.

2. Côd Ymarfer Ariannu'r Trydydd Sector- Mae Cyngor Sir Ddinbych wedi paratoi Côd Ymarfer Ariannu i'r Grŵp Cyswllt Trydydd sydd, yn amodol ar un neu ddau o newidiadau, wedi'i dderbyn gan y Grŵp

Caffaeliad a Chomisiynu

(a)Partneriaeth Caffaeliad Gogledd Cymru - gorchwyl gwylio, gan nad oes unrhyw broblemau amlwg ar hyn o bryd.

(b)**Comisiynu ar y cyd** - Dechreuwyd trafodaethau gyda Chyngor Sir Ddinbych a gofynnwyd i'r eitem gael ei gynnwys yn y Cynllun Gweithredu 2011er mwyn i ni, gyda'n gilydd, symud y mater ymlaen gan yr ymddengys fod Siroedd eraill yn llawer pellach ymlaen na Sir Ddinbych.

4. Bwrdd Rhaglen Datblygu Gwledig (RDP) 'Rydym yn disgwyl am ganlyniadau adolygiad canol tymor Llywodraeth Cymru. Mae'r ymgynghorwyr, sy'n gweithio ar ran Llywodraeth Cymru, yn siarad gydag aelodau Partneriaeth Datblygu Gwledig ar hyn o bryd. O ganlyniad i'r adolygiad 'rydym yn gobeithio bydd y rhaglen wledig yn fwy hygyrch a llai biwrocrataidd fyddai o gymorth mawr i'r Trydydd Sector a chymunedau lleol.

5. **Bwrdd Adfywiad** - 'Rydym yn parhau i ddisgwyl i glywed gan y Cyngor Sir os yw'r Trydydd Sector yn mynd i gael ymglymiad.

6. Cludiant Cymunedol - 'Rydym, ers amser maith, eisiau gweld gwasanaeth cludiant cymunedol grymus, wedi'i gydlynu'n dda, yn Sir Ddinbych ac mae'n dda cael dweud ein bod, ar y cyd â Chyngor Sir Ddinbych a Chymdeithas Cludiant Cymunedol Cymru yn cymryd yn cymryd camau positif i'r perwyl hyn.

7. Cymorth a Theuluoedd yn Gyntaf Dim rhagor o newyddion, felly'r hyn a wyddom ar hyn o bryd yw bydd raid i fudiadau a ariennir o dan gynllun Cymorth chwilio am arian o ffynonellau eraill o fis Ebrill 2012 ymlaen gan fod Cymorth yn dod i ben ar 31 Mawrth 2012. Bydd cynllun newydd o'r enw Teuluoedd yn Gyntaf yn dod i rym ond ar hyn o bryd nid oes wybod pwy fydd yn derbyn arian na faint o arian a ddyrennir. Mae hyn ymhell o fod yn sefyllfa berffaith ac yn rhwystro mudiadau rhag cynllunio gwasanaethau ar gyfer y dyfodol fydd, efallai, yn gadael cleientiaid bregus ar draws y sir yn ansicr ynglyn â pha fudiadau trydydd sector sy'n rhoi cefnogaeth iddynt ar hyn o bryd fydd yn dal i fodoli ym mis Ebrill. 'Rydym yn lobio Llywodraeth Cymru ac wedi cyflwyno cynnig iddynt fyddai'n helpu mudiadau drwy gyfnod trawsnewid. Felly dyma'r amser i fudiadau edrych ar eu Cynllun B ag edrych am arian o ffynonellau eraill os ydynt am barhau i gynnig gwasanaeth o Ebrill 2012 ymlaen. 'Rwy'n gwybod fod hyn yn mynd i fod yn newyddion pryderus iawn i rai mudiadau ond dyna yw'r sefyllfa. Yn naturiol bydd CGGSDd yma i helpu gyda cheisiadau ariannol, cynlluniau busnes ayb felly cysylltwch â ni am gymorth.

8. Grantiau Mudiadau Gwirfoddol - Yng nghyfarfod diwethaf y Grŵp Cyswllt Trydydd Sector gofynnwyd i'r Cyngor Sir ddileu'r toriad grant o 10% - 'roedd y Cyngor am ystyried y cais. Mae'r Cyngor, erbyn hyn, wedi adrodd yn ôl ac wedi dweud bydd y toriad o 10% yn cael ei ddefnyddio i ariannu gwasanaethau newydd fydd y trydydd sector yn gallu ceisio am. Cynhaliwyd cyfarfod cynhyrchiol yn y Nova ym Mhrestatyn ym mis Awst pan wahoddodd y Cyngor grwpiau gwirfoddol oedd yn bresennol i uniaethu gwasanaethau newydd posib. Cyflwynwyd rhestr i'r Cyngor a disgwyliwn eu hymateb.

Canolfan Gwirfoddoli

Am ragor o fanylion ar gyfleodd neu faterion gwirfoddoli cysylltwch â Gaynor yn Rhuthun ar 01824 702441 /Gerry yn swyddfa'r Rhyl ar 01745 369973

Demi Wright, 16 mlwydd oed o Brestatyn yw Gwirfoddolwr y Mileniwm rhif 1,750 i Ganolfan Gwirfoddoli Sir Ddinbych. Mae hi hefyd yn Gadet y Fyddin ym Mhrestatyn ag yn aelod o'r Dreigiau Ifanc. Mae Demi yn gyn ddisgybl Ysgol Uwchradd Penarlâg ac ar fin dechrau ar ei hastudiaethau yng Ngholeg Llaneurgain.

Teithiodd aelodau Dreigiau Ifanc Gogledd Cymru i Gae Ras Ffos ger Caerfyrddin i gyfarfod a Dreigiau Ifanc eraill i gymryd rhan mewn arddangosfa a chyflwyniad o'u gwaith. Mynychwyd y digwyddiad gan y Tywysog Charles, Tywysog Cymru fu'n cyfarfod â chynrychiolwyr o'i holl fudiadau elusennol yng Nghymru. Y Dreigiau Ifanc yw'r elusen fwyaf diweddar i'w sefydlu.

Dywedodd Gerry Frobisher, "Ymysg ein cynrychiolwyr 'roedd aelodau o'r Geidiaid, Brigâd Bechgyn a Merched, Cadetiaid Morwrol, Cadetiaid y Fyddin, ATC, Heddlu a'r Gwasanaeth Tân. Dwy Ddraig Ifanc a deithiodd o Ogledd Cymru i'r digwyddiad oedd Emily Lewis ag Alice Frobisher a fu'n ffodus iawn o gael sgwrs hir gyda'r Tywysog.

Am ragor o fanylion am yr Young Dragons/ Dreigiau Ifanc, cysylltwch â Gerry Frobisher ar 01745 369973.

Waves

Wales Alliance of Volunteers Engaging with Services

Cafodd Cynghrair Cymru o Wirfoddolwyr yn Ymgysylltu â Gwasanaethau ei sefydlu yn ystod gwanwyn 2010. Cafodd ei sefydlu i ddarparu cyfleoedd gwirfoddoli yn y system cyfiawnder troseddol, gan gydnabod y gallai gwirfoddolwyr ddarparu cymorth a chefnogaeth i droseddwyr sy'n cael eu goruchwylio gan y Gwasanaeth Prawf.

Mae nifer o anawsterau ychwanegol yn debyg o effeithio ar y rheini sy'n ymwneud â'r system cyfiawnder troseddol, gan gynnwys materion tai, pryderon ariannol, materion domestig a gyda pherthnasau a nifer o broblemau eraill, sydd i gyd yn rhwystro ymdrechion i fynd i'r afael yn iawn ag ymddygiad troseddol.

Mae Waves wedi ymgymryd â'r cyfrifoldeb, ar ran y Gwasanaeth Prawf, am ddarparu gwasanaeth derbynfa yn adeilad amlasiantaethol Dewi Sant yn Y Rhyl. Mae'r swyddogaeth weinyddol yma'n cynnwys ateb y ffôn, cydweithrediad a chyswllt rhyngasiantaethol, a darpariaeth gwasanaeth gwasanaethau rheng flaen i'r rhai sy'n mynychu'r ganolfan.

Darperir hyfforddiant a thelir costau.

Yn Eisiau: Gwirfoddolwyr i Gynllunio a Gwneud Offer i Bobl Anabl yng Ngogledd Ddwyrain Cymru -

Mae Remap yn elusen arbennig iawn, yn gweithredu drwy rwydwaith o wirfoddolwyr led led y wlad, sy'n defnyddio eu dyfeisgarwch a'u medr i helpu pobl anabl i sicrhau annibyniaeth mewn rhai agweddau o'u bywyd, neu i fwynhau cyfleoedd amser hamdden fyddai'n anodd iawn iddynt.

Mae Remap yn dylunio a chynhyrchu darnau o offer unigryw sy'n cael eu rhoi i bobl, am ddim, pan mae gwasanaethau prif ffrwd wedi methu helpu.

Mae'r gwaith yn ddiddorol ag amrywiol; fe all fod yn sialens, ond mae bob amser yn bleserus. Tra bod y rhan fwyaf o'r gwaith yn cael ei wneud yn eich cartref eich hun, byddwch er hyn yn rhan o dîm gydag aelodau eraill yn eich cefnogi a'ch cynorthwyo.

Mae'r bobl sydd eu hangen yn cynnwys: peirianyddion, ffisegwyr a thechnegwyr; Crefftwyr megis seiri coed a metal; Pobl fedrus mewn electroneg a thrydan; Gwneuthurwyr modelau; Pobl gyda sgiliau 'meddal' megis clustogwaith; Pobl â gwybodaeth ym maes iechyd megis therapyddion galwedigaethol a ffisiotherapyddion; Dylunwyr; Pobl cynnal a chadw medrus.

Mae Remap yn gweithio dros ardal sy'n cynnwys Sir y Fflint, Sir Ddinbych a rhan o Gonwy ag yn gweithio ochr yn ochr â phobl feddygol cymwys , therapyddion galwedigaethol fel rheol. Os oes gennych amser sbâr ag yn ffitio'r categorïau uchod hoffem glywed gennych ar frys. Cysylltwch â Gaynor Jones yn y lle cyntaf.

Arian Grantiau Ieuenctid Sir Ddinbych

Os yw eich mudiad yn chwilio am arian i ddatblygu syniad gwirfoddoli neu i brynu offer i helpu gyda phrosiect yn ymwneud â phobl ifanc? Neu efallai bod eich grŵp eisoes yn gweithio â phobl ifanc, ag yn chwilio am arian ychwanegol i ddatblygu gweithgareddau gwirfoddoli ymhellach?

Os ydych, fe allech wneud cais am uchafswm grant o £500 i gefnogi gwirfoddoli, prynu offer neu i ddechrau gweithgaredd newydd i bobl ifanc.

Ym mis Ebrill derbyniodd Cyngor Gwasanaethau Sir Ddinbych (CGGSDd) arian i'w ddosbarthu i gefnogi amrywiaeth o brosiectau gwirfoddoli a gweithgareddau, ar gyfer a than arweinyddiaeth pobl ifanc yn Sir Ddinbych, er mwyn cynyddu gwirfoddoli ymysg pobl ifanc rhwng 16 a 25 mlwydd oed.

Y flwyddyn ddiwethaf dosbarthodd CGGSDd £8,700 o Grantiau Ieuenctid i un ar bymtheg o grwpiau ieuenctid. **'Roedd y grwpiau canlynol yn llwyddiannus Clwb Criced Prestatyn; Sgwadron 1340 ATC Y Rhyl; Clwb Hwyl Plant; Theatr Fach Y Rhyl; Clwb Hwyl Hwyr; Dreigiau Ifanc; Seindorf Arian Llangollen; Prosiect Ieuenctid Dinbych; Geidiaid 1af Meliden; Pêl droed yn y Gymuned Y Rhyl; Cymdeithas Diffoddwyr Tân Ifanc Prestatyn; Clwb Ffermwyr Ifanc Llangollen a'r Cylch; Sgwadron 2193 ATC Prestatyn; Ambiwlans Sant Ioan Rhuthun; Canolfan Pop in a Chlwb Nofio Prestatyn .**

Dywedodd Gaynor Jones, Trefnydd y Ganolfan Gwirfoddoli "Hoffem weld yr arian yn cael ei rannu mor fuan â phosib i grwpiau lleol sy'n ymwneud â phobl ifanc, felly cysylltwch â ni os byddai hyd at £500 yn ddefnyddiol i chi".

Dywedodd Manon Evans, Dinbych, sy'n aelod ar Banel Dosbarthu Grantiau Ieuenctid Sir Ddinbych "Hoffem weld rhagor o bobl ifanc o 16 i 25 yn ymuno â'r Panel Pobl Ifanc sy'n cyfarfod i drafod ceisiadau am grantiau. Bydd aelodau'r panel yn derbyn cefnogaeth gan staff CGGSDd".

Os oes gan eich grŵp ieuenctid neu brosiect dan arweinyddiaeth pobl ifanc ddiddordeb mewn gwneud cais am arian, neu os hoffech fanylion pellach ar ymuno â'r panel cysylltwch â Gaynor Jones, CGGSDd ar 01824 702441 e-bost gaynor@dvsc.co.uk neu Gerry Frobisher ar 01745 369973 e-bost gerry@dvsc.co.uk

CANOLFAN NAYLOR LEYLAND RHUTHUN

Hurio Ystafelloedd

YSTAFELL GYNHADLEDD
(i hyd at 60 o bobl - ar ffurf theatr)

YSTAFELL BWYLLGOR FECHAN
(i hyd at 10 o bobl)

CYRSIAU HYFFORDDIANT

SEMINARAU

CYFARFODYDD

GWEITHDAI

Cost hurio ystafelloedd o £15 y sesiwn

I gael manylion llawn ynglyn â chostau ag argaeledd cysylltwch ag unai

Bronwen Isaac neu Carys Edwards

Ffôn: **01824 702441**

Ebost: **office@dvsc.co.uk**

Hefyd ar gael ar gyfer huriadau sector breifat

- **Man cyfarfod hollol hygyrch**
- **Maes parcio bychan**
- **Lifft**
- **Sustem Loop Intergral**
- **Cegin**

Er eich cyfleuster gellir trefnu'r canlynol ymlaen llaw:

- **Adnoddau cyfieithu**
- **Adnoddau clyweled**
- **Lluniaeth**

Gostyngiadau Sylweddol i Aeloadau

CANOLFAN NAYLOR LEYLAND
Stryd y Ffynnon, Rhuthun
Sir Ddinbych LL15 1AF
www.dvsc.co.uk

Undebau credyd Cymru yn dod ynghyd

- Cyhoeddwyd fod pum undeb credyd yng Ngogledd Cymru wedi uno. Mae undebau credyd Caledfryn, Arfordir Clwyd, Llandudno a'r Cylch, Wrecsam a'r Llechen wedi ymuno i ffurfio Undeb Credyd Gogledd Cymru sy'n un o'r grwpiau mwyaf o'i fath gyda dros 9,500 o aelodau.
www.northwalescu.co.uk/welsh/cartref.php

Mae gan Linell Gymorth Cyffuriau ac Alcohol Cymru (DAN 24/7) rif ffôn newydd sy'n rhad ag am dim o ran fwyaf o linellau ffôn a'r rhan fwyaf o ffonau symudol.
Y rhif newydd yw 0808 808 2234.
Am ragor o wybodaeth am y gwasanaeth ewch i www.dan247.org.uk ag i gael deunydd hyrwyddo am ddim ewch i www.callresources.org.uk

Cyllideb Llywodraeth Cymru 2012-13

Bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi'r gyllideb ddrafft ar gyfer 2012-13 ar 4 Hydref 2011. Caiff y gyllideb wedyn ei harchwilio gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru – bydd hwn yn cynnwys pwyllgorau pwnc amrywiol (Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol; Plant a Phobl Ifanc; Yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd; Menter a Busnes; Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol) pob un yn craffu ar eu maes eu hunain o'r gyllideb. Byddant wedyn yn bwydo hwn i'r Pwyllgor Cyllid a fydd yn craffu ar y gyllideb yn gyffredinol, cyfrif am adroddiadau Pwyllgorau eraill a chyhoeddi eu hadroddiad eu hunain (erbyn 8 Tachwedd). Wedyn, bydd yn rhaid i Lywodraeth Cymru gyfrif am hyn cyn cyhoeddi ei chyllideb ar gyfer 2012-13 y bydd angen cael ei basio gan bleidlais yn y Senedd.

Ceir rhagor o wybodaeth am amserlenni'r gyllideb a chyfleoedd i gael dweud eich dweud ar wefan Lleisiau dros Newid Cymru www.voicesforchangecymru.org.uk dros y misoedd nesaf a chofiwch edrych ar eitemau newyddion diweddaraf LlDNC.

AIL GYNHADLEDD GENEDLAETHOL AR OFAL CANSER MEWN ARDALOEDD GWLEDIG

Dydd Mercher, 23 Tachwedd a dydd Iau, 24 Tachwedd 2011

Neuadd Reichel, Safle Ffriddoedd, Prifysgol Bangor, Ffordd Ffriddoedd, Bangor LL57 2TR

Ceir ffurflen gofrestru ar www.nwcs.ac.uk neu i gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â: Ysgol Glinigol Gogledd Cymru, Swyddfa F7, Neuadd Croesnewydd, Parc Technoleg Wrecsam, Wrecsam LL13 7YP, Ffôn: 01978 727633; e-bost: jeanette.christian@wales.nhs.uk

O gwmpas yn gwrando ar eich barn

Bydd Cyngor Sir Ddinbych a'i bartneriaid ar y Bwrdd Gwasanaethau Lleol yn cynnal sioeau teithiol yn yr wythnosau i ddod – gan roi cyfle i bobl leol ddweud eu dweud am wasanaethau cyhoeddus yn y sir.
Mae'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol yn cynnwys Cyngor Sir Ddinbych, Heddlu Gogledd Cymru, Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Coleg Llandrillo Cymru a Chyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych.
Fe gaiff y sesiynau eu cynnal yn y lleoliadau canlynol:
Dydd Llun, Medi 26 – Eirianfa, Dinbych 7pm
Dydd Llun, Hydref 3 – Ysgol Brynhyfryd, Rhuthun 7pm
Dydd Llun, Hydref 10 – Ystafell y Foryd, Canolfan Gymunedol Wellington Road, Y Rhyl 7pm
Dydd Mercher, Hydref 12 – Pafiliwn Chwaraeon Corwen 2pm
Dydd Iau, Hydref 13 October – Neuadd y Brenin, Prestatyn – 2pm
Dydd Mawrth, Hydref 18 – Llyfrgell y Deon, Llanelwy 7pm.
I gael gwybodaeth bellach, cysylltwch â Thîm Cyfathrebu Corfforaethol Sir Ddinbych ar 01824 706222.

ENW A STAFF NEWYDD

Mae Gwasanaeth Eiriolaeth Pobl Hŷn Sir Ddinbych wedi datblygu ag erbyn hyn wedi newid ei enw i **Hawlio Eiriolaeth - Access to Advocacy 50+** Mae arian a ddyfarnwyd dros dair blynedd o'r Loteri Fawr - Pawb a'i Le, a grant pellach, am flwyddyn, o'r Porth Ymgysylltu wedi galluogi'r gwasanaeth, a reolir gan Gyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych, i ehangu. Bydd y gwasanaeth yn darparu cefnogaeth, gwybodaeth a chyngor i bobl dros 50 mlwydd oed sy'n byw yn Sir Ddinbych, ag yn helpu'r rhai sydd angen cefnogaeth i gael dweud eu dweud i sicrhau eu hawliau a'r gwasanaethau maent eu hangen.

DYMA'R TÎM – Elfed Williams - Uwch Swyddog Eiriolaeth
elfed@dvsc.co.uk

Fe'm penodwyd yn Swyddog Eiriolaeth gan Gyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych ym mis Hydref 2008 gyda'r dasg o sefydlu gwasanaeth eiriolaeth un ar un i bobl dros 50 oed ag yn byw yn Sir Ddinbych. Yn ystod y flwyddyn gyntaf bum yn gweithio ar dros gant o achosion gyda'r raddfa o gefnogaeth yn amrywio o bobl angen cymorth i sicrhau gwasanaethau i achosion mwy difrifol yn ymwneud ag Amddiffyn Oedolion Bregus.

Mae sicrhau cyllid, fel y gwyr unrhyw un sy'n gweithio yn y trydydd sector, yn frwydr barhaus oedd ddim gwahanol i'r Gwasanaeth Eiriolaeth. 'Roeddwn yn ddiolchgar i Gyngor Sir Ddinbych, y Bwrdd Iechyd Lleol, fel yr oedd yr adeg hynny, a Lloyds TSB am yr arian a dderbyniwyd ond nid oedd digon o arian i'm galluogi i ehangu'r gwasanaeth. O'm profiad yn ystod yr amser hyn 'roedd yn amlwg fod mwy o angen nag a welwyd a phenderfynais wneud cais i'r Loteri Fawr am gyllid mwy cynaliadwy. Yn 2009 dechreuwyd ar yr ymchwil a'r broses o ymgynghori ynglyn â'r angen am y gwasanaeth a defnyddiwyd y canlyniadau i gyflwyno cais i'r Loteri ym mis Gorffennaf 2010. 'Roedd y cais yn llwyddiannus ag ym mis Rhagfyr 2010 clysom fod £246,800 wedi'i ddyfarnu, dros dair blynedd.

Drwy'r prosiect newydd, Hawlio Eiriolaeth / Access 2 Advocacy 50+, byddwn yn gallu ehangu'r gwasanaeth. Bydd y Tîm yn cynnwys Uwch Swyddog Eiriolaeth llawn amser, Gweithiwr Allgymorth rhan amser a chefnogaeth gweinyddol. Elfen bwysig o'r cyllid a sicrhawyd oedd sefydlu 6 cymorthfeydd / syrjeris ar draws y sir dan arweiniad gwirfoddolwyr. Lleolir y syrjeris yn Y Rhyl, Prestatyn, Dinbych, Rhuthun, Corwen a Llangollen. Bydd lansiad y syrjeri gyntaf yn Llyfrgell Y Rhyl ddydd Mawrth 6ed Medi o 9am tan 12.30 pob dydd Mawrth i ddilyn.

Mae cyllid pellach o'r Porth Ymgysylltu, dros gyfnod o flwyddyn, wedi ein galluogi i benodi Cydlynydd Gwirfoddoli i recriwtio a chefnogi gwirfoddolwyr i helpu i redeg y syrjeris cyngor.

I wybod rhagor am ein gwasanaeth newydd cyffrous
Ffôn:01745 353096
neu galwch i'n gweld yn ein swyddfa newydd **Uned W5, Canolfan Busnes Morfa Clwyd, Marsh Road, Y Rhyl LL18 2AF**

Dawn Sandford - Gweithiwr Cefnogaeth Allgymorth

dawn@dvsc.co.uk

'Rwyf newydd fy mhenodi yn Weothiwr Cefnogaeth Allgymorth i'r Prosiect Hawlio Eiriolaeth / Access 2 Advocacy 50+. Byddaf yn darparu gwasanaeth eiriolaeth i bobl dros 50 oed yn Sir Ddinbych ochr yn ochr ag Elfed Williams, yr Uwch Swyddog Eiriolaeth.

Yn y gorffennol bum yn gweithio yn y Sector Gyhoeddus, Trydydd Sector a'r Sector Breifat. 'Rwyf wedi bod yn darparu cyngor a gwybodaeth i aelodau'r cyhoedd am dros bum mlynedd ar hugain ac yn mwynhau cyfarfod pobl a'u helpu i ddatrys eu problemau.

'Rwy'n frwdfrydig a hollol ymroddedig i sicrhau fod pawb yn ymwybodol o'u hawliau, yn deall sut i'w sicrhau, ag i roi cymorth iddynt os oes ydynt ei angen.
Byddaf yn gweithio o'n swyddfa yn Y Rhyl ond yn cynnig gwasanaeth allanol i bobl dros 50 oed sy'n byw yn Sir Ddinbych.

Sarah Caunt - Cefnogaeth Gweinyddol

sarahc@dvsc.co.uk

Yn 2010 enillais radd o Brifysgol Caer mewn Lles ag Ymddygiad Anifeiliaid. Ym mis Ionawr 2011, wedi gweithio am gyfnod, yn rhan amser, gyda chŵn, cefais gynnig swydd drwy Gynllun Swyddi'r Dyfodol y Ganolfan Waith. Gweithiais i Gyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych (CGGSDd) yn Rhuthun fel Cynorthwyydd Gweinyddol i Gaynor Jones, Trefnydd y Ganolfan Gwirfoddoli ag i Lindsay Haveland, Uwch Hwylusydd Iechyd Gofal Cymdeithasol a Lles. Tra'n gweithio yno dysgais lawer o sgiliau ag adeiladais ar fy ngwybodaeth o'r Trydydd Sector, yghyd â gallu gweithio â thîm ffantastig o bobl. Chwe mis oedd fy nghontract, ond yn ffodus ar ddiwedd y cyfnod daeth cyfle i wneud cais am swydd gyda'r Prosiect Eiriolaeth. Yn fy swydd bresennol 'rwy'n gyfrifol am reoli'r bas data, cynorthwyo'r aelodau staff eraill gyda'i gwaith o ddydd i ddydd, ynghyd â chynllunio ein gwefan newydd a dyletswyddau gweinyddol cyffredinol.

Luke Pickering - Cydlynydd Gwirfoddoli

luke@dvsc.co.uk

'Rwyf wedi gweithio o fewn mudiadau elusennol am y tair blynedd diwethaf yn darparu gwasanaethau cymunedol a chefnogi fy nhîm o wirfoddolwyr. Dechreuais gyda'r Groes Goch Brydeinig yn Sir y Fflint i'r Gwasanaeth Adra o'r Ysbyty, yn gweithio gyda tîm o wirfoddolwyr yn darparu gwasanaeth byr dymor, o safon uchel, i ddefnyddwyr. Yn dilyn, bum yn gweithio i'r Gymdeithas Strôc yn Sir y Fflint i'r Gwasanaeth Teulu a Gofalwyr gyda gwirfoddolwyr where I also work with a team of volunteer delivering the services and supporting the volunteers needs. Unfortunately in March 2011 the Stroke Association was hit by cut in funding, which resulted in redundancy from my role.

On the 1st August 2011 I started in my present role which involves looking at all the needs of the Access 2 Advocacy volunteers such as support, development and creating an overall enjoyable experience. I will provide this support to my team through regular volunteer meetings, 1:2:1's, training and regular contact. Through my role I will be enabling the development of volunteers by guiding them in a direction of learning or gaining skills and experience. The different avenues that are available to volunteers are training, education, further volunteering and even employment.
The whole Volunteering experience with Access 2 Advocacy is about the volunteer and providing them with opportunities and support to fully develop in their role.

Cyfarfod cyntaf y Cyngor Partneriaeth â'r Llywodraeth newydd

Cyfarfu Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector am y tro cyntaf o dan Lywodraeth newydd Cymru ddydd Iau 14 Gorffennaf 2011.
Mae'rCyngor Partneriaeth yn rhan o Gynllun Trydydd Sector Llywodraeth Cymru, ac mae'n un o'r cyfryngau allweddol a ddefnyddir gan Lywodraeth Cymru i gynnal deialog a chydweithredu â'r trydydd sector.
Yn y cyfarfod diweddaraf hwn, a gadeiriwyd gan Carl Sargeant AC, y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, bu cynrychiolwyr y sector yn trafod ac yn gosod y blaenoriaethau ar gyfer y tair blwyddyn nesaf, a chafwyd cyflwyniadau ar y meysydd allweddol canlynol.

Trefniadau ar gyfer y Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd yn y dyfodol

Cytunodd y cyfarfod ei bod yn bwysig fod Llywodraeth Cymru a'r Trydydd Sector yn gweithio gyda'i gilydd i wneud yn fawr o'r cyfleoedd a fydd ar gael i Gymru drwy'r Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd o 2014 ymlaen a chytunwyd y dylid sefydlu gweithgor i fynd â'r mater yn ei flaen.

Ariannu'n Genedlaethol, Cyflawni'n Lleol

Bydd adolygiad Simpson o'r ffordd y mae awdurdodau lleol yn darparu gwasanaethau'n effeithio ar y ffordd y mae awdurdodau lleol yn darparu gwasanaethau. Cytunodd y cyfarfod y dylid sefydlu gweithgor bychan i ystyried y goblygiadau i'r sector a llunio cynigion ar fynediad i'r gronfa ddata, i gynnwys Llywodraeth Cymru, CLILC a'r trydydd sector.

Trosglwyddo asedau

Cronfa ddata yw e-PIMS (gwasanaeth mapio gwybodaeth am eiddo'n electronig) o eiddo yn y sector cyhoeddus sy'n wag neu â lle gwag y gellid ei ddefnyddio gan y sector. Y gobaith yw y bydd pob ased cymunedol yn cael ei gynnwys yn y gronfa ddata hon yn y dyfodol. Cytunodd y cyfarfod y dylid sefydlu gweithgor bychan i fwrw ymlaen â hyn cyn cyfarfod nesaf y Cyngor Partneriaeth.

Partneriaeth Gweithlu'r Gwasanaethau Cyhoeddus

Mae rôl Cyngor Partneriaeth Gweithlu'r Gwasanaethau Cyhoeddus yn cael ei hadnewyddu fel rhan o agenda polisi cyhoeddus Llywodraeth newydd Cymru. Gofynnwyd i'r cyfarfod: sut gall gweithlu'r gwasanaethau cyhoeddus weithio'n well ochr yn ochr â gweithlu'r trydydd sector yn yr agenda hwn? Dywedodd Graham Benfield fod WCVA wedi cyflwyno cynigion i'r Gweinidog yn pwysleisio y dylid dangos yr un parch at bob swydd yn y trydydd sector â swyddi mewn sectorau eraill, ac y dylid cyflwyno canllawiau i awdurdodau lleol i ystyried yr argyfyngau tymor hwy a chyfochrog cyn torri gwasanaethau neu grantiau. Dywedodd y Gweinidog y byddai'n falch o wneud hyn.

Sgiliau Trydydd Sector

Mae WCVA wedi ystyried sawl ffordd o gael cydnabyddiaeth ar gyfer fframwaith i fynd i'r afael ag anghenion sgiliau'r sector ac yn awr mae'n cynnig ffordd newydd o weithredu a fydd yn canolbwyntio'n fwy uniongyrchol ar sut gall y sector ei hun gyfarfod â darparwyr eraill, neu gydweithio â nhw, er mwyn diwallu'u hanghenion sgiliau. Cytunodd WCVA i sefydlu grŵp llywio bychan i ddatblygu'r syniad ac adrodd ar y cynnydd ym Mai 2012.

Goblygiadau Penderfyniadau Llywodraeth y DU i Gymru

Cytunodd y cyfarfod y dylid sefydlu gweithgor bychan yn cynnwys Llywodraeth Cymru a'r Trydydd Sector i drafod dulliau o sicrhau bod llais Cymru'n cael ei glywed yn well ac yn cael ei ystyried mewn perthynas â materion heb eu datganoli sy'n pryderu'r sector a sut i fynd i'r afael â rhai o'r goblygiadau sy'n codi o faterion heb eu datganoli sy'n effeithio ar bobl Cymru. Mae'r cofnodion a'r holl bapurau ar gyfer y cyfarfod hwn ar gael yn: http://tinyurl.com/42bnupe.
Bydd Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector yn cynnal ei gyfarfod nesaf ym mis Tachwedd. Am ragor o wybodaeth am waith Cyngor Partneriaeth y Sector Gwirfoddol a Chynllun y Sector Gwirfoddol, cysylltwch â Mirriam Nasrat, mnasrat@wcva.org.uk

Newyddion a gwybodaeth i Gymru gan:
Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
Ty Baltig House, Sgwar Mount Stuart,
Bae Caerdydd, CF10 5FH
Lein Gymorth 0800 2888 329 www.wcva.org.uk

Cefnogi cymunedau i dyfu

Mae rhaglen newydd i helpu pobl i sefydlu a rheoli cynlluniau tyfu yn eu cymunedau wedi cael ei lansio ledled Cymru gan Ffederasiwn Ffermydd Dinesig a Gerddi Cymunedol (FCFCG). Enw'r rhaglen tair blynedd yw Tyfu Pobl, a bydd yn cefnogi amrywiaeth o gynlluniau, gan gynnwys ffermydd dinesig, rhandiroedd, gerddi cymunedol, perllannau cymunedol a chynlluniau amaethyddiaeth a gefnogir gan y gymuned. Mae'r rhaglen yn deillio o ganlyniad uniongyrchol i'r diddordeb cynyddol mewn tyfu bwyd yn gymunedol a chreu meysydd glas naturiol.

Caiff y rhaglen ei chyllido gan Lywodraeth Cymru, a bydd yn sicrhau na fydd grwpiau cymunedol yn gweithio ar eu pennau eu hunain – bydd pobl leol yn cael eu hannog i rannu eu gwybodaeth a'u harbenigedd, fel y bydd cysylltiadau'n cael eu creu drwy Gymru gyfan rhwng cynlluniau tyfu newydd a'r rhai sydd eisoes wedi'u sefydlu. Mae tîm datblygu newydd eisoes wedi'i roi at ei gilydd, a cheir swyddfeydd rhanbarthol yng Nghaerdydd, yn Sir Benfro, yn y Drenewydd ac ym Mangor. Yn y cyfamser, bydd Cydlynydd Menter a Chyllido Cymunedol yn helpu i oresgyn effeithiau andwyol yr hinsawdd gyllido bresennol drwy sicrhau mynediad at ffynonellau cyllid, a gweithio gyda grwpiau i'w helpu i fod yn fwy cynaliadwy yn ariannol, ac yn llai dibynnol ar grantiau.

O ganlyniad i'r rhaglen, bydd grwpiau tyfu lleol yn cael budd o gefnogaeth a chyngor gan y tîm datblygu, yn ogystal â chan weithwyr maes o grwpiau sydd eisoes yn bodoli, a mentoriaid i helpu gyda rhandiroedd. Bydd cynllun bwrsariaethau teithio ar gael hefyd, er mwyn i grwpiau allu ymweld â safleoedd ei gilydd, a mynd i gyfarfodydd rhanbarthol. Bydd hyn yn rhoi cyfle i dyfwyr a garddwyr lleol gyfarfod, dysgu sgiliau newydd a chyfnewid syniadau ac ysbrydoliaeth.

Cynhelir digwyddiad lansio swyddogol ar 23-24 Medi ar Fferm Gymunedol Greenmeadow, Cwmbrân, a fydd yn dechrau rhaglen yr hydref o gyfarfodydd rhanbarthol a digwyddiadau hyfforddi. Cynhelir hyfforddiant yn ymwneud â 4 prif faes; cynaliadwyedd, cynhwysiant cymdeithasol,
sefydlu prosiect tyfu cymunedol a chreu mannau tyfu cymunedol ar gyfer perchnogion tir. Gellir cael rhagor o fanylion yn Katie Jones, ffôn 029 2022 5942, ebost Katie@farmgarden.org.uk.

Cynhadledd Ymddiriedolwyr a Llywodraeth WCVA

Rhannu'r baich' yw teitl y Gynhadledd Ymddiriedolwyr a Llywodraethu boblogaidd eleni, a gynhelir yn Llandudno, 26 Hydref.

Bydd y digwyddiad yn trafod sut y gall byrddau ymddiriedolwyr gydweithio a symud ymlaen mewn cyfnodau anodd, a bydd amryw o siaradwyr arbenigol ac arweinwyr gweithdai yno. Mae'r siaradwyr gwadd yn cynnwys Dorothy Dalton o'r cylchgrawn Governance a Mike Lewis o Gyngor Ffoaduriaid Cymru, a bydd y gweithdai'n cynnwys Simon Boex (Bwrdd Safonau Codi Arian) yn trafod 'Adnoddau, risgiau ac enw da', cynrychiolwyr o'r Comisiwn Elusennau yn trafod 'Y mudiad corfforedig elusennol' a Rob Taylor (Age Cymru) yn trafod 'Bywyd wedi'r uno'.

Ewch i www.wcva.org.uk i weld y rhaglen lawn a'r ffurflen archebu, neu anfonwch e-bost at eventsadmin@wcva.org.

Enwebwch nawr ar gyfer Gwobrau Trydydd Sector Cymru 2011

Enwebwch nawr ar gyfer Gwobrau Trydydd Sector Cymru 2011
Wyddoch chi am grwp y credwch sy'n haeddu cydnabyddiaeth genedlaethol am ei gyraeddiadau? Enwebwch nawr ar gyfer Gwobrau Trydydd Sector Cymru 2011.

Mae Gwobrau Trydydd Sector Cymru, a gefnogir gan *Class Telecommunications*, yn hybu ac yn dathlu gwaith y trydydd sector ledled Cymru, gwaith sy'n parhau i fod yn ymroddgar ac yn llawn ysbrydoliaeth hyd yn oed yn y cyfnod anodd hwn. Mae'r Gwobrau yn gyfle i chi wobrwyo'r grwp hwnnw sy'n haeddu cydnabyddiaeth.

Gallwch enwebu mewn pedwar categori:
Gwobr *Class* am y cyfathrebu gorau- ar gyfer mudiadau sydd â ffordd effeithiol neu arloesol o gyfleu eu neges.
Y wobr werdd - ar gyfer grwpiau sydd â ffyrdd unigryw, arloesol o leihau eu hôl troed carbon.
Y Wobr iechyd, gofal cymdeithasol a lles - ar gyfer mudiadau sydd wedi helpu pobl i fod yn iachach ac yn hapusach yn eu cymuned.
Y mudiad a edmygir fwyaf - yn syml, am y grwp rydych yn ei edmygu fwyaf.

Peidiwch â gadael i grwp ysbrydoledig fynd heb wobr. Mae enwebiadau bellach ar agor - pleidleisiwch heddiw. Rhaid derbyn yr enwebiadau erbyn 25 Tachwedd 2011.

Hwb i deithio cynaliadwy yng Nghymru

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y bydd canolfannau teithio cynaliadwy yn derbyn hwb ariannol o £6 miliwn dros y 12 mis nesaf.

Mae pum canolfan deithio cynaliadwy yn y wlad, yng Nghaerdydd, Môn a Menai, Hwlffordd, Caerfyrddin ac Aberystwyth, gyda phob un a mesurau i annog pobl i gerdded, beicio neu ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus.

Dywedodd Gweinidog dros Drafnidiaeth Cymru, Carl Sargeant: 'Bydd yr arian hwn yn cael ei ddefnyddio i alluogi awdurdodau lleol i hyrwyddo teithio cynaliadwy drwy gyfuniad o fentrau, gan gynnwys datblygu cynlluniau teithio ar gyfer y prif gyflogwyr yn yr ardal, rhoi mwy o gymorth i'r gwasanaethau bysiau a hyrwyddo beicio a cherdded yn frwd. Drwy roi dewis arall realistig yn lle'r car i'r unigolyn, a newid agwedd pobl tuag at drafnidiaeth, gallwn ni gyflawni ein nod o ddatblygu system drafnidiaeth wirioneddol gynaliadwy yng Nghymru.'

Dywedodd Lee Waters, Cyfarwyddwr Sustrans Cymru: 'Drwy ein gwaith a thystiolaeth, rydyn ni'n gwybod y gall cydlynu mesurau i roi rhagor o wybodaeth i bobl ynghylch y dewisiadau sydd ar gael iddyn nhw o ran trafnidiaeth – a gwella amodau mewn gwirionedd i'w gwneud yn fwy deniadol i bobl deithio'n gynaliadwy – arwain at ostwng y defnydd a wneir o geir yn sylweddol.

'Mae Sustrans yn gweithio'n agos a Llywodraeth Cymru I sicrhau'r manteision gorau posibl o'r buddsoddiad £6 miliwn hwn, ac rydyn ni'n hyderus y bydd yn cyfrannu at y nodau cyffredinol o leihau allyriadau carbon o drafnidiaeth a chreu poblogaeth iachach a mwy egnïol.'

Bydd y gyllideb o £6 miliwn yn cael ei rhannu ymysg y canolfannau, gyda £1.3 miliwn yn cael ei neilltuo ar gyfer ymyriadau Cynlluniau Teithio Personol – a fydd yn golygu anfon gwybodaeth I gartrefi pobl i roi gwybod iddynt am y dewisiadau yn lle gyrru. Bydd y Cynllun Teithio Personol yn cael ei dreialu yng Nghaerdydd i ddechrau. Mae cynlluniau tebyg wedi'u gweithredu yn Lloegr ac maent wedi helpu i leihau teithiau mewn car oddeutu deg y cant.

Newyddion a gwybodaeth i Gymru gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru

Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, Prif Swyddfa - Ty Baltig, Sgwâr Mount Stuart, Caerdydd, CF10 5FH, elusen gofrestredig rhi 218093, cwmni cyfyngedig drwy warant 425299, wedi ei gofrestru yng Nghymru.